# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 17 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:15 - 15:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_17_10_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Rebecca Evans**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Gwyn R Price**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Imelda Richardson, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**<br>**Nicola Amery, Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru**<br>**Steve Bartley, Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru**<br>**Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**<br>**Dr Andrew Goodall, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**<br><br>**Karen Healey, Vale Healthcare**<br>**Albert Heaney, Llywodraeth Cymru** |

| | |
|---|---|
| | **Katherine Murphy, Chymdeithas y Cleifion**<br>**Cathy O'Sullivan, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru**<br>**Carol Shillabeer, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**<br>**David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru**<br>**Martin Solis, Llywodraeth Cymru**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 1 - AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru

2.1 Atebodd cynrychiolwyr o AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

2.2. Oherwydd mater technegol, gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 9.17 a 9.23

## 3 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 2 - Cynrychiolwyr Byrddau Iechyd Lleol

3.1 Atebodd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 3 - Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a Chymdeithas y Cleifion

4.1 Atebodd cynrychiolwyr o Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a Chymdeithas y Cleifion gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

## 5 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 4 – Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru

5.1 Atebodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

5.2 Cytunodd Nicola Amery i ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro pryderon Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru am drefniadau diogelwch (fel y codwyd ym mharagraff 7.1. o dystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru).

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – trafodaeth breifat i ystyried y dystiolaeth.

7.1 Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ar:

- Flaenraglen waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Yr ystod lawn o waith a chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gwaith a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf
- Dilyn tystiolaeth i waith arolygu
- Astudiaethau achos

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gofal

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y memoranda diwygiedig ac atodol ar y Bil Gofal a chytunodd i ddychwelyd at y pwnc ar ôl y toriad hanner tymor.

## 9 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 – sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

9.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

9.2 Gofynnodd y Pwyllgor am nodyn gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu sut y byddai'r gronfa gofal canolraddol o £50 miliwn yn cael ei dyrannu.

9.3 Gofynnodd y Pwyllgor am nodyn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn egluro pa wasanaethau ychwanegol sy'n wynebu dadfuddsoddiad er mwyn cefnogi amseroedd agor estynedig i feddygfeydd.

## 10 Papurau i'w nodi

10.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

10.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.
10.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru – pecyn cymorth i bwyllgorau graffu ar gydraddoldeb

10.3 Nododd y Pwyllgor y pecyn cymorth.

## 11 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 – trafodaeth breifat i ystyried y dystiolaeth.

11.1 Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ysgrifennu atynt i geisio eglurhad ar nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn.

11.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r llythyr hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio'i waith o graffu ar y gyllideb ddrafft.